

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar [Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig](#)

This response was submitted to the [Health and Social Care Committee](#) consultation on [supporting people with chronic conditions](#).

CC50: Ymateb gan: | Response from:

Cymdeithas Alzheimer Cymru / Alzheimer's Society



Russell George, Aelod o'r Senedd
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Dydd Iau, 25^{ain} o Fai, 2023

Annwyl Gadeirydd

Ymateb i Ymgynghoriad: Cynorthwyo pobl â chyflyrau cronig

Croesawn y cyfle i ymateb i gam cyntaf ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynorthwyo pobl sydd â chyflyrau cronig, ac rydym yn gyffredinol gefnogol i'r themâu allweddol fel y'u hamlinellir yn y Cylch Gorchwyl.

Alzheimer's Society yw prif elusen ddementia'r Deyrnas Unedig. Darparwn wybodaeth a chymorth, rydym yn gwella gofal, rydym yn ariannu ymchwil, ac rydym yn creu newid parhaol i bobl yr effeithir arnynt gan ddementia yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon. Ein cenhadaeth yw gweddnwedd tirwedd dementia i greu cymdeithas lle mae'r rheiny sy'n byw â dementia yn cael eu cynorthwyo i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cael at ofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar unigolion, gofal sy'n diwallu'u hanghenion unigol.

Rydym yn bartner allweddol i ddatblygu a monitro Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia ac yn gweithio â chyrrff y GIG a rhanddeiliaid eraill i wella gwasanaethau dementia drwy gydgyhyrchu â'r rheiny sydd â phrofiad o fyw.

Yng Nghymru, mae tua 50,000 o bobl ar hyn o bryd yn byw â dementia, ffigwr y rhagamcanir fydd yn codi i dros 100,000 erbyn 2050.¹ Gyda nifer y bobl sy'n byw â dementia'n cynyddu gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, llai o gynhwysedd mewn gwasanaethau gofal iechyd, a system gofal cymdeithasol sy'n ddibynnol ar ofalwyr di-dâl, byddem yn annog y Pwyllgor i roi sylw neilltuoel i anghenion pobl sy'n byw â dementia fel rhan o'r ymchwiliad.

Fel mae cyffredinrwydd dementia yn parhau i godi, mae'n hanfodol ei drin fel blaenoriaeth. Dangosodd ymchwil blaenorol fod dementia'n costio £10.6 miliwn y flwyddyn i Gymru, sy'n cynrychioli 17% o gynnydd er 2011. Gyda 91.8% o'r bobl sy'n byw â dementia â chyflwr iechyd arall, a chostau economaidd a chymdeithasol dementia'n codi, mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal mynediad at ofal a chymorth o ansawdd, a chodi ymwybyddiaeth o ddementia fel rhan o negeseua iechyd cyhoeddus.

Ffactor allweddol o ran gofal ansawdd yw diagnosis cywir ac amserol. Er bod 91% o bobl yr effeithir arnynt gan ddementia yn dangos buddion pendant o gael diagnosis,² mae'r gyfradd ddiagnosis yng Nghymru oddeutu 50 y cant ar ôl gostwng yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r prif rwystrau rhag cael at wasanaethau diagnostig yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth o

¹ Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dementia, (2021) *No understanding, No knowledge, No support, Hospital Care in Wales*, tudalen 3: <https://business.senedd.wales/documents/s127656/Report%20from%20the%20CPG%20on%20Dementia.pdf>

Alzheimer's Society, (2015). *Diagnose or disempower? Receiving a diagnosis of dementia in Wales*, p.V: [Diagnose or disempower? \(alzheimers.org.uk\)](https://www.alzheimers.org.uk)

² Alzheimer's Society (2022). Mae 91% o bobl yr effeithir arnynt gan ddementia yn gweld buddion pendant o gael diagnosis, sydd ar gael ar-lein yn: www.alzheimers.org.uk/news/2022-05-16/91-people-affected-dementia-see-clear-benefits-getting-diagnosis

fuddion diagnosis, amrywiad rhanbarthol mewn argaeledd gwasanaethau (yn neilltuol mewn ardaloedd gwledig) a diffyg dull aml-ddisgyblaethol o weithredu yn y gweithlu. Mater allweddol arall yw'r prinder peiriannau sganio PET i hwyluso diagnosau o ansawdd, gydag ond 3 peiriant sganio PET ar gael yng Nghymru.


Mae materion systemig allweddol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn cynnwys yr angen i gasglu a chyhoeddi data cyson am ddiagnosis (yn cynnwys fesul is-deip o ddementia) a diffyg cymorth ôl-ddiagnosis a gynigir yn rhagweithiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofawyr, y mae llawer ohonynt yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynorthwyo a'u bod yn ynysig ar ôl diagnosis. Argymhellwn fod y Pwyllgor yn cynnwys canolbwyntio ar gyfraddau diagnosis ledled cyflyrau, fel rhan o'r ymchwiliad.

Mae'n hanfodol codi'r gyfradd ddiagnosis er mwyn darparu'r gofal a'r cymorth priodol i ddiwallu anghenion y rheiny sy'n byw â dementia drwy sicrhau modd teg o gael at wasanaethau diagnostig i bawb, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd, rhywedd, iaith neu leoliad daearyddol. Dylai offer asesu sy'n ddiwylliannol berthnasol a dehonglwyr (yn cynnwys asesiadau dwyieithog ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac asesiadau ar gyfer y rheiny sy'n fyddar neu sy'n ddefnyddwyr iaith Arwyddion Prydain) gael eu cyflwyno a'u rhoi ar gael yn eang, yn cynnwys ymysg unigolion o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol a chymunedau lleiafrifoedd ethnig sydd yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ddiagnosis ac sy'n derbyn diagnosis yn ddiweddarach, o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.³

Mae ymchwiliad y Pwyllgor yn darparu cyfle i archwilio ansawdd gwasanaethau dementia yng Nghymru a sut i roi sylw i'r rhwystrau gwaelodol i gael at ofal a chymorth o ansawdd i alluogi pobl i fyw'n dda â dementia. Gyda Chynllun Gweithredu adnewyddedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia sydd i fod i gael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf a chyffredinrwydd cynyddol dementia yng Nghymru, credwn ei fod yn gyfle amserol i ddementia gael ei gynnwys fel pwnc penodol o fewn ymchwiliad y Pwyllgor.

Croesawn y cyfle i gyfrannu tuag at ymchwiliad y Pwyllgor, a chofiwch beidio â phetruso cyn cysylltu â ni petai gennych unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Yr eiddoch yn gywir,



James White, Pennaeth Dylanwadu Cenedlaethol, Alzheimer's Society

E-bost: James.White@alzheimers.org.uk

³ Adelman, S. (2010). *Prevalence and recognition of dementia in primary care: a comparison of older African-Caribbean and white British residents of Haringey*, Traethawd ymchwil PhD. Coleg Prifysgol Llundain